

Fy enaid, estyn ymlaen

*“Rhowch i farwolaeth, felly, y rhannau hynny ohonoch sy'n perthyn i'r ddaear.”
(adn. 5)*

Beth am ddarllen Colosiaid 3:1–17 ac yna myfyrio

Cyn inni orffen trafod y gorchymyn “Gwnewch bob ymdrech”, mae angen inni fod yn berffaith glir nad siarad yr ydym am ymdrech y cnawd yn unig. Yn yr Ysgrifur, pan bwysleisir ymdrech ddynol, mae llawer o Gristnogion yn ystyried hyn fel ymdrech i fyw ein bywyd Cristnogol dan rwymedigaeth ein hewylllys ac yna yn dod i'r farn fod y bywyd Cristnogol yn gallu bod yn rhywbeth cyfreithiol iawn. Yn y llyfr *Your God is Too Safe*, fe ddywed Mark Buchanan: “Yr ydym yn rhy barod i weld rhyw grefydd gyfreithiol yn gorwedd y tu ôl i bob ymdrech i fyw yn sanctaidd.” Bob tro y byddaf yn dweud wrth rywun i weithio allan ei iachawdwriaeth, fe fydd rhywun yn clywed fi'n dweud “Gweithiwch er mwyn eich iachawdwriaeth”. Mae'r ddau beth yn gwbl wahanol.

Yn anffodus, mae llawer o Gristnogion yn cael trafferth i weld y gwahaniaeth rhwng gras ac ymdrech. Credant, gan eu bod wedi eu hachub trwy ras, nad oes angen ymdrech. Nid yw gras ac ymdrech yn wrthgyferbyniol. Mae gras ac elwa yn eiriau gwrthgyferbyniol. Mae'r gred y dylech weithio er mwyn eich iachawdwriaeth yn heresi ond mae gweithio allan eich iachawdwriaeth yn Feiblaidd. Wrth gwrs, mae gwneud pob ymdrech yn golygu ymdrech yr ewylllys. Ond mae'r ymdrech a wnawn i ychwanegu at ein ffydd y rhinweddau y mae Pedr yn eu hamlinellu yn fwy nag ymdrech yr ewylllys. Mae yna rym sydd yn gweithio gyda'n hewylllys – grym gras Duw ei hun. Rwyf wedi dweud droeon o'r blaen, Duw sydd yn darparu yr ynni a'r grym; y cyfan yr ydym ni yn ei ddarparu yw yr ewylllys.

Yn ôl un esboniwr, mae'r geiriau “Gwnewch bob ymdrech” yn golygu ‘ymestynnwch’. Ymhellach fe ddywed: “Os na fedrwch wneud yr ymdrech i ymestyn er budd datblygiad eich enaid, a hynny oherwydd na allwch drafferthu gyda'r anghyfleustra mae'n ei ddwyn i'ch bywyd, mae'n anodd gennyf gredu eich bod wedi cael gafael yn y peth iawn.” Wyt ti'n credu dy fod wedi cael gafael yn y peth iawn? Ardderchog! Ymestynna! “Fy enaid, ymestyn ymlaen.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Jos. 14:6–14; 1 Cron. 4:10; Salm 18:21–36; Eiseia 54:1–3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae ymestyn ein tiroedd ysbrydol?
2. Beth oedd Caleb a Jabes yn ei rannu?

Gweddi

O Dduw, rwy'n gofyn i ti faddau i mi fy mod wedi caniatáu i'm bywyd ysbrydol fynd yn ddiymdrech. Rwy'n gofyn i ti roi cyhyrau ysbrydol i mi. Rwy'n gwybod fy mod wedi cael gafael yn y peth da. Cynorthwya fi nawr i ymestyn ac i ymdrechu ac i gael gafael fwyfwy yn Iesu. Amen.